Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

David Rees AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

11 Tachwedd 2014

Annwyl David

Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16

Diolch am eich llythyr mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2015-16, a oedd yn ddefnyddiol iawn yn llywio ystyriaeth y Pwyllgor. Mae ein hadroddiad, 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16', a osodwyd heddiw, yn cyfeirio at lawer o'r pwyntiau a gododd yn eich llythyr.

Fel y gwyddoch, mae iechyd yn un o'r blaenoriaethau a nodwyd gan y Llywodraeth, ac mae cyllid ychwanegol sylweddol yn cael ei ddyrannu i'r sector iechyd o ganlyniad i adroddiad Nuffield. Mae aelodau'r Pwyllgor Cyllid wedi mynegi pryderon nad oes canllawiau cadarn ar y diwygiadau a ddisgwylir i'r sector iechyd i gyd-fynd â'r cyllid ychwanegol hwn. Felly, mae'r Pwyllgor wedi dod i'r casgliad a ganlyn:

> *Mae gan y Pwyllgor bryderon am ddiwygio'r sector iechyd a bydd yn hysbysu'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am y pryderon hyn gan argymell y dylai'r pwyllgor hwnnw wneud darn o waith ar ddiwygiadau iechyd cyn diwedd y Cynulliad hwn.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 2089 8120
E-bost/Email: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallai eich Pwyllgor ystyried gwneud gwaith ar ddiwygio'r sector iechyd yn sgil dyrannu'r cyllid ychwanegol sylweddol.  Mae rhagor o wybodaeth gefndir am y dystiolaeth a ddaeth i law yn y maes hwn ar gael yn adroddiad y Pwyllgor.**

**Yn gywir**



**Jocelyn Davies AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**